



## Tasg 2

### Trefnu sesiwn

#### Clybiau'r Urdd

Mae clybiau'r Urdd ar draws Cymru.



Ewch i <http://www.urdd.cymru/cy/fy-ardal/> i weld ble mae'r clybiau.


Mae plant a phobl ifanc yn cael hwyl yn y clybiau. Maen nhw'n chwarae gemau ... yn gwneud gweithgareddau ... yn mynd ar deithiau ... ac maen nhw'n mwynhau yn Gymraeg.

1. Rydych chi'n trefnu gweithgaredd ar gyfer un o'r clybiau yma.
  - Rhaid i'r plant / pobl ifanc gael hwyl.
  - Rhaid i'r plant / pobl ifanc siarad Cymraeg.Beth ydych chi'n mynd i drefnu?  
Trafodwch hyn mewn grŵp. Mae help i chi ar y dudalen nesaf.

Ysgrifennwch nodiadau wrth drafod.

Geirfa	
clwb, clybiau	club, clubs
ar draws	across
gweithgaredd	activity
gweithgareddau	activities
ar gyfer	for, on behalf of
trefnu	to organize, arrange
nodiadau	notes
wrth drafod	when discussing





2. Cymharwch eich syniadau fel dosbarth.
3. Ysgrifennwch daflen i ddweud wrth bawb am y gweithgaredd.

Rhaid i chi ddweud:

- beth
- pryd
- ble
- beth yn union fydd yn digwydd
- oes rhaid i'r plant / bobl ifanc dalu?
- unrhyw wybodaeth arall.

Cofiwch lawrlwytho lluniau hefyd.

Geirfa	
yn union	exactly
taflen	leaflet
lawrlwytho	to download

